

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar

**Addysg yn y cartref: canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a thaflen wybodaeth ar gyfer addysgwyr yn y cartref.**

### **Gwahoddiad i Weithdai Rhanbarthol 'Trafodaethau Bwrdd'**

Mae gan pob plentyn yr hawl i addysg. Yng Nghymru mae addysg yn orfodol ond nid yw'n orfodol mynychu ysgol ac fe all rhieni ddewis addysgu eu plant yn y cartref. Mae Erthygl 2 o Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan fod dymuniadau rhieni yn bwysig ac y dylent gael eu parchu.

Yng Nghymru fe warchodir hawliau plant trwy gyfraith ac mae hyn wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan:

- Fod gan bob plentyn yr hawl i addysg . (*Erthygl 28*)
- Mae gan blant yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu bywydau (*Erthygl 12*)
- Dylai bob oedolyn ystyried sut y bydd ei benderfyniadau'n effeithio ar blant, a gwneud yr hyn sydd orau i'r plentyn.. (*Erthygl 3*)

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref a thaflen wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n addysgu yn y cartref.. Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, comisiynwyd Cazbah a Markit gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â chyfres o weithdai 'Trafodaethau Bwrdd' ar draws Cymru i gasglu adborth.

Er mwyn derbyn eich adborth ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref a'r daflen wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n addysgu yn y cartref, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eich gwahodd chi fel rhanddeiliad neu fel rhiant ynghyd â'ch plant i weithdy 'Trafodaethau Bwrdd'. Cynhelir sesiwn 'Trafodaethau Bwrdd' ar gyfer plant a phobl ifanc ar yr un pryd â rhai'r oedolion. (rhanddeiliaid a rhieni) mewn ystafell gyfagos gan gynnig cyfle ar gyfer trafodaeth ganolbwyntiedig.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol - fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiad yn bwysig wrth gynorthwyo i hysbysu polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r holl adborth yn ddienw ac fe ddinistrir unrhyw gofnod a ddefnyddiwyd i goladu ymatebion unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Ni ddarperir adnoddau Crèche/chwarae ar gyfer rhieni sy'n mynychu gyda'u plant nad ydynt yn cymryd rhan yn y sesiwn 'Trafodaethau Bwrdd' .

Bydd lluniaeth ar gael. Gan na ddarperir cinio mae croeso i chi ddod â'ch byr brydau eich hunan.

Mae llefydd yn brin ac fe'u dyrannir ar sail ' y cyntaf i'r felin' Os ydych yn dymuno mynychu Gweithdy 'Trafodaethau Bwrdd' cliciwch ar '[Cofrestrwch yn awr](#)'.

<b>Rhanbarth</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Amser</b>
<b>De Cymru</b>	Stadiwm Dinas Caerdydd	Gwener 11 <sup>eg</sup> Hydref 2019	10.00 - 13.00pm
<b>Gogledd Cymru</b>	Venue Cymru, Llandudno	Gwener 18 <sup>fed</sup> Hydref 2019	10.00 - 13.00pm
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Stadiwm Liberty Abertawe	Llun 21 <sup>ain</sup> Hydref 2019	10.00 - 13.00pm

Unwaith y byddwch wedi cofrestru byddwch yn derbyn ebost yn cadarnhau pa unai yr ydych wedi llwyddo i sicrhau lle yn y gweithdy o'ch dewis.

Sylwer os gwelwch yn dda y defnyddir y wybodaeth a roddwch yn unol â pholisi preifatrwydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Addysg yn y Cartref. Gellir gweld y manylion hyn [yma](#) \*